Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **20 Tachwedd** |
| **Amser:** | **10:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff, HDP (JB)<br>Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/10/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2352** | **Yr Heddlu i wahodd CHTh i gyflwyniad AHEM ar alw ar 29 Hydref 2018.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2353** | **AD i roi diweddariad o ddata gweithlu ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Bwrdd Plismona.** | **Yn Parhau** |
| **PB 2354** | **AD i ymgysylltu â'r PSA a'r CC er mwyn sicrhau bod y strategaeth AD yn cyd-fynd â chynlluniau ac oblygiadau ariannol yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2355** | **AD i gyflwyno ffigurau chwarterol ynglŷn â'r gweithlu o ran swyddogion heddlu a staff yr heddlu ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd plismona sydd â thema AD. Dylai'r adroddiadau hyn hefyd gynnwys dadansoddiad rhagfynegi ar gyfer y chwarter sydd i ddod.** | **Yn Parhau** |
| **PB 2356** | **Cymharu data salwch HDP ag awdurdodau unedol a chyflwyno'r ffigurau gyda sesiwn wybodaeth nesaf yr adran AD yng nghyfarfod mis Tachwedd y BP.** | **Yn Parhau** |
| **PB 2357** | **Y PS i roi adroddiadau AD Awdurdod yr Heddlu sy'n cynnwys data salwch fel templed ar gyfer adroddiadau BP yn y dyfodol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2358** | **Tracey Hawthorn i ystyried Pecyn Diswyddo Staff Heddlu Dyfed-Powys er mwyn bod yn gydradd â** | **Yn Parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **heddluoedd eraill Cymru.** | |
| **PB 2359** | **Y CHTh i roi gohebiaeth i JB sy'n ymwneud ag ariannu Swyddog Diogelu Rhag Twyll Ariannol ar gyfer dilyniant.** | **Cwblhawyd** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 20/11/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 80** | **Mae'r CHTh yn dyfarnu gwobr tendr sengl i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth am feddalwedd i awtomeiddio'r datganiad o gyfrifon.** | **BP/EH** |

PB 2346 – *Rhoi diweddariad ar y Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2018/19 gyda chyflwyniad gan yr adran AD yn y Bwrdd Plismona ar 23 Hydref 2018* – Cwblhawyd

PB 2347 – *Cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 20 Tachwedd* – I'w gyflwyno ar 3 Rhagfyr

PB 2349 – *Yr Heddlu i ymateb gyda'u gweithredoedd arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn yr adroddiad craffu dwys ar y defnydd o rym erbyn 30 Hydref* – Cwblhawyd

PB 2350 – *Codi'r mater o gydweithio mewn cyfarfod rhwng Tîm Prif Weithredwyr SCHTh ac ASau Cymru ar 4 Rhagfyr* – Cwblhawyd

PB 2351 – *Anfon ymatebion ar wahân gan SCHTh a HDP at Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu* - Cwblhawyd

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Gofynnodd y CHTh i MH gael gwybod am unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Plismona (BP) ar 23 Hydref.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Nododd y PG fod 4 hunanladdiad a marwolaeth sydyn wedi digwydd ers y BP diwethaf ar 23 Hydref. Nododd y PG y bu 10 ymosodiad ar Swyddogion Heddlu ers y cyfarfod diwethaf hefyd. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar arestiadau parhaus Grwpiau Troseddu Trefnedig sy'n dod mewn i'r ardal heddlu, a dywedodd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno fel diweddariad i'r Ysgrifennydd Cartref yn ystod ei ymweliad â Phencadlys yr Heddlu ym mis Rhagfyr 2018. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar ddigwyddiad Ymgyrch Caethwasiaeth ar 30 Hydref a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth modern mewn

partneriaeth â Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr. Hefyd, diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch arést athro mewn perthynas â throseddau ymosodiad rhywiol a oedd yn cynnwys sawl dioddefydd, yn ogystal â dau wrthdrawiad traffig y ffyrdd angheuol a ddigwyddodd yn ddiweddar. Canmolodd y PG y Diwrnod o Weithredu mewn perthynas â Throseddau Gwledig o fewn yr heddlu a oedd yn ymwneud â swyddogion yn cydweithio â phartneriaid ac a welodd swyddogion gorfodi'n ymweld â ffermydd er mwyn ymgysylltu â phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn Nyfed-Powys. Roedd y PG wedi cwrdd â'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid ddechrau Tachwedd ac wedi nodi bod Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei gydnabod am ei ymagwedd tuag at droseddau gwledig a'r cymorth a ddarperir i gymunedau gwledig. Mynegodd y PS awydd y Panel Heddlu a Throseddu i fod yn gysylltiedig â chyfarfodydd troseddau gwledig lleol yn y dyfodol. Nododd y CHTh fod y Fforwm Heddlu diwethaf wedi'i gynnal ym mis Ionawr 2018 ac awgrymodd gynnal un arall ym mis Ionawr 2019 i adolygu gwaith a gwblhawyd yn 2018 a chanolbwyntio ar 2019 a thu hwnt.

**Cam Gweithredu: JB i sicrhau bod adrannau a nodwyd yn cael gwybod am ymweliad yr Ysgrifennydd Cabinet ar 10 Rhagfyr.**

**Cam Gweithredu: Y PG i roi dyddiadau cyfarfodydd lleol troseddau gwledig i SCHTh er mwyn i'r Panel Heddlu a Throseddu fynd iddynt.**

**Cam Gweithredu: JB i roi dyddiad ar gyfer y Fforwm Heddlu ym mis Ionawr a gwahodd arweinwyr URS i fod yn bresennol.**

**Diweddariadau Sefydliadol**

Nododd y PG nad oes unrhyw swyddogion nac aelodau staff wedi'u gwahardd o'r gwaith ar hyn o bryd. Canmolodd y PG y Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter am ei llwyddiant arbennig yn arholiadau Canolfan Asesu Cenedlaethol yr Heddlu.

## 4. Diweddariad y CHTh

### Lleol

Estynnodd y CHTh ei ddiolch i staff HDP, sef Paul Callard a'r Ditectif Brif Arolygydd Anthony Evans, am ddigwyddiad Diogelu Rhag Seiberdroseddu a gynhaliwyd yn Sir Benfro ar 19 Tachwedd. Roedd busnesau lleol yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan fusnesau lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â Chaethwasiaeth Modern), TARIAN a'i gangen Troseddau Seiber.

**Cam Gweithredu: Tîm Ymgysylltu SCHTh i ymgysylltu â Paul Callard, y Ditectif Brif Arolygydd Anthony Evans a Shane Williams ar ôl y Digwyddiad Diogelu ar 19 Tachwedd gyda golwg ar gynnal digwyddiadau tebyg yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Phowys.**

### Cenedlaethol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynghylch cyfarfod o Fwrdd TGCh yr Heddlu a rhoddodd wybod i PB am lythyr wrth Fwrdd TGCh yr Heddlu'n gofyn am gymorth ar ffurf cronfa wrth gefn er mwyn sicrhau ei hylifedd. Hefyd, diweddarodd y

CHTh y BP ynglŷn â'i fwriad i gael cynrychiolaeth o SCHTh yn ystod y daith gerdded golau cannwyll ar gyfer yr Ymgyrch Rhuban Gwyn ar 22 Tachwedd.

Rhannodd y CHTh ei fwriad i drafod ei rôl ar rai byrddau cenedlaethol gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn canolbwyntio ar feysydd a fyddai'n ychwanegu'r gwerth mwyaf i'r Heddlu a chymunedau lleol.

**5. Eitemau Sefydlog**

**a) Gwasanaethau sydd wedi'u Comisiynu**

Dywedodd y CHTh fod Bwrdd Comisiynu SCHTh wedi ailgychwyn yn ddiweddar yn dilyn cyfnod o adolygu. Roedd cyfarfod diweddaraf y Bwrdd yn cynnwys cyflwyniad gan gynrychiolydd Cyfiawnder Adferol ac un arall gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed. Diweddarodd y cyflwyniad Cyfiawnder Adferol y Bwrdd Comisiynu ynghylch y gwaith sy'n digwydd gyda chyfiawnder adferol a arweinir gan droseddwyr. Dywedodd y PS fod addysg am y gwasanaethau a rhannu gwybodaeth yn ddau ffactor sydd angen eu gwella. Awgrymodd y cyflwyniad Cyfiawnder Adferol y gellid gwella ei berthynas â Goleudy hefyd er mwyn nodi mwy o ddioddefwyr drwy'r broses honno. Nododd y Bwrdd nad oedd Cyfiawnder Adferol yn cael ei ddefnyddio'n aml, ac y byddai'n fuddiol defnyddio adolygydd allanol i archwilio'r gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan SCHTh yn eu cyfanrwydd.

**b) Diweddariad Ynghylch Rheoli Risg**

Cydnabu'r Bwrdd y ddogfen, gyda'r CHTh yn dweud ei fod yn falch o weld y paratoadau ar gyfer gadael yr UE yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad.

**c) Torri Rheoliadau Diogelu Data**

Cydnabu'r Bwrdd 47 achos o dorri rheoliadau diogelu data. O'r rhain, roedd angen cyfeirio 8 i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Rheoli Gwybodaeth i ganfod pa waith maen nhw'n ei wneud i leihau nifer y datgeliadau llafar gan swyddogion.**

**7. Materion i'w trafod**

**a) Cynnig ar gyfer safle Cydweli**

Cydnabu'r Bwrdd drafodaethau parhaus gyda'r Ffederasiwn Heddlu mewn perthynas â gwerthu'r eiddo yng Nghydweli. Nodwyd fod cynnig o £170,000 yn unol â'r gwerth ailwerthu. Nodwyd hefyd fod potensial ar gyfer prisiad ychydig yn uwch pe ceir caniatâd cynllunio ar gyfer y safle, ond y byddai cymal gorswm yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwerthiant. Awgrymodd y PSA y dylid ceisio sicrwydd er mwyn egluro disgwyliadau ynghylch costau yn y dyfodol a chyfraniadau i'r Ffederasiwn, ac yn wir, sicrhau bod y Ffederasiwn wedi ystyried crynswth yr eiddo y sonnir amdanynt yn eu cynllun busnes.

**Cam Gweithredu – Cyfarfod i'w drefnu gyda Mark Bleasdale neu Roger Webb mewn perthynas â'r Tŷ Heddlu yng Nghydweli er mwyn pennu a**

**chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer costau yn y dyfodol ar gyfer cyfleustodau a chynnal a chadw, a'u heithriadau o'r heddlu.**

**b) Asesiad Effaith Masnachol Mewn Perthynas â Gadael yr UE**

Dywedodd y PG y byddai'r Ditectif Arolygydd Louise Harries yn datblygu'r Asesiad Effaith Masnachol mewn perthynas â Gadael yr UE o safbwynt HDP, tra bydd Gogledd Cymru'n ariannu swydd uwch-arolygydd. Bydd sefyllfaoedd tebyg yn Ne Cymru a Gwent yn sicrhau y bydd 4 unigolyn yn gweithio ar sail Cymru Gyfan gyda chanllawiau'n dod wrth Y Dirprwy Gomisiynydd Cynorthwyol Richard Martin o Lundain o ran heriau yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu – Anfon copi o'r fframwaith ar gyfer y Cynllun ar gyfer Gadael yr UE at Louise Harries, ac yna Louise i roi diweddariad ynghylch gadael yr UE a'r paratoadau ar gyfer y Bwrdd Plismona ar 18 Rhagfyr, a chyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2019.**

**c) Tuag At 2025**

Darparwyd dogfen ar gyfer gwybodaeth CHTh. Gofynnodd y CHTh am i wybodaeth am rôl y Comisiynydd a SCHTh gael ei chynnwys yn y ddogfen.

**Cam Gweithredu: Cyhoeddi Tuag At 2025. Mae'r CHTh wedi gofyn am ymgynghoriad mewn perthynas â hyn a chyhoeddiadau yn y dyfodol. Ar gyfer hwn, mae'r CHTh wedi gofyn am gynnwys cyfeiriad at "Rôl y Comisiynydd", yn arbennig agweddau o waith Comisiynwyr sy'n darparu atebolrwydd ar gyfer yr heddlu. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i erthygl sy'n ymwneud â theledu cylch cyfyng, dolen i wefan SCHTh, a gwybodaeth mewn perthynas â chostau cyfalaf yn y dyfodol.**

**Unrhyw Fusnes Arall**

**a)** Gwobr Tendr Sengl: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – dywedodd y PSA fod y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth wedi datblygu meddalwedd ar gyfer cynorthwyo â chwblhau'r datganiad o gyfrifon. Cyflwynwyd y feddalwedd hon i dîm cyllid HDP ddechrau mis Tachwedd. Cydnabu'r Bwrdd fanteision y feddalwedd, er ei fod yn cydnabod y gwaith ychwanegol fyddai angen i'w weithredu, a'r angen anochel ar gyfer gwelliannau proses sy'n debygol o godi. Mae'r cynnig yn dweud y byddai'r heddlu a SCHTh yn rhannu'r costau'n gyfartal, gyda SCHTh yn ariannu £8450 yn y flwyddyn gyntaf, a £5125 yn ail flwyddyn a thrydedd flwyddyn y cytundeb.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh yn dyfarnu gwobr tendr sengl i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth am feddalwedd i awtomeiddio'r datganiad o gyfrifon.**

**b)** Gwobr Tendr Sengl: TGCh – Nid oedd y Grŵp Prif Swyddogion wedi trafod y wobr tendr sengl ar gyfer cynnal y system rheoli cyfathrebiadau integredig, y system canfod unigolion awtomatig a'r gweithfannau adfer ar ôl trychineb o'r blaen. Cytunwyd y byddai'r wobr tendr sengl yn cael ei ddychwelyd i'r BP ar 6 Rhagfyr.

**Cam Gweithredu: Yr heddlu i archwilio i'r dyfarniad tendr TGCh ac ystyried y tendr hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 6 Rhagfyr.**

**c)** Trafodaeth ynglŷn â'r praesept: cytunodd y Bwrdd ar bwysigrwydd y naratif o gwmpas y praesept heddlu, a thrafodwyd manteision mabwysiadu dull ie/na wrth holi'r cyhoedd am eu parodrwydd i dalu mwy am y gwasanaeth heddlu.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 20/11/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2360** | **JB i sicrhau bod cynrychiolwyr o'r Clinig Stryd Iechyd Meddwl, Goleudy, yr Uned Seiberdroseddu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn rhan o ymweliad yr Ysgrifennydd Cabinet ar 10 Rhagfyr.** | **JB** |
| **PB 2361** | **Y PG i roi dyddiadau cyfarfodydd lleol troseddau gwledig i SCHTh er mwyn i'r Panel Heddlu a Throseddu fynd iddynt.** | **PG** |
| **PB 2362** | **JB i roi dyddiad ar gyfer y Fforwm Heddlu ym mis Ionawr a gwahodd arweinwyr URS i fod yn bresennol.** | **JB** |
| **PB 2363** | **Tîm Ymgysylltu SCHTh i ymgysylltu â Paul Callard, y Ditectif Brif Arolygydd Anthony Evans a Shane Williams ar ôl y Digwyddiad Diogelu ar 19 Tachwedd gyda golwg ar gynnal digwyddiadau tebyg yn y siroedd eraill.** | **Hannah Hyde/Catrin Howells-Lloyd** |
| **PB 2364** | **Y Tîm Rheoli Gwybodaeth i bennu pa waith maen nhw'n ei wneud er mwyn lleihau nifer y datgeliadau llafar gan swyddogion.** | **Yr Heddlu** |
| **PB 2365** | **Cyfarfod i'w drefnu gyda Mark Bleasdale neu Roger Webb mewn perthynas â'r Tŷ Heddlu yng Nghydweli er mwyn pennu a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer costau yn y dyfodol ar gyfer cyfleustodau a chynnal a chadw, a'u heithriadau o'r heddlu.** | **CY** |
| **PB 2366** | **Anfon copi o'r fframwaith ar gyfer y Cynllun ar gyfer Gadael yr UE at Louise Harries, ac yna Louise i roi diweddariad ynghylch gadael yr UE a'r paratoadau ar gyfer y Bwrdd Plismona ar 18 Rhagfyr, a chyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2019.** | **JB** |
| **PB 2367** | **Cyhoeddi Tuag At 2025. Mae'r CHTh wedi gofyn am ymgynghoriad mewn perthynas â hyn a chyhoeddiadau yn y dyfodol. Ar gyfer hwn, mae'r** | **PS, PSA, CY** |

| | | |
|---|---|---|
| | **CHTh wedi gofyn am gynnwys cyfeiriad at "Rôl y Comisiynydd", yn arbennig agweddau o waith Comisiynwyr sy'n darparu atebolrwydd ar gyfer yr heddlu. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i erthygl sy'n ymwneud â theledu cylch cyfyng, dolen i wefan SCHTh, a gwybodaeth mewn perthynas â chostau cyfalaf yn y dyfodol.** | |
| **PB 2368** | **Yr heddlu i archwilio i'r dyfarniad tendr TGCh ac ystyried y tendr hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 6 Rhagfyr.** | **Yr Heddlu** |